



TGAU – **NEWYDD**

3010NB0-1



S17-3010NB0-1

**LLENYDDIAETH GYMRAEG  
UNED 2: Y Nofel  
HAEN UWCH**

DYDD MERCHER, 24 MAI 2017 – BORE

1 awr 15 munud

3010NB01  
01

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Defnyddiwch yr indecs isod i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

**Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.**

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

**NOFELAU**

	<b>Tudalen</b>
AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones)	2
I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn)	4
DIM (Dafydd Chilton)	6
Y STAFELL DDIRGEL (Marion Eames)	8
YN Y GWAED (Geraint Vaughan Jones)	10
O RAN (Mererid Hopwood)	12

**AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – Alun Jones**

1. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Trafodwch sut a pham mae cymeriad **Richard Jones** yn bwysig i stori'r nofel?  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 3.  
**Sut** mae'r awdur yn creu awyrgylch yn yr olygfa hon?  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- (c) Ysgrifennwch **adroddiad papur newydd** yn adrodd hanes yr heddlu ar drywydd Richard Jones.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- [40]

Byddai sgwâr dau led rhaw yn ddigon.

Tynnodd y tywyrch yn ofalus a'u gosod â'u pennau i lawr wrth ei ymyl, a dechreuodd dyllu'n ddiwyd a distaw gan ofalu rhoi pob mymryn o'r pridd ar y papur.

5 Go damia, carreg. Pa mor isel tybed? Rhoes ei law yn y twll. Cwta droedfedd. Dim digon o'r hanner. A fentraï roi golau? Yr oedd yn rhy dywyll iddo weld dim yn y twll ac nid oedd y rhimyn o leuad uwchben o unrhyw gymorth gan fod y cymylau'n gwibio ar ei draws yn ddi-baid. Golau amdani.

10 Aeth ar ei liniau uwchben y twll a goleuodd ei lamp. Pyramid o garreg. Byseddodd o'i chwmpas am ysbaid cyn darganfod meddalwch yn un pen. Turiodd â'i fys heibio iddi ac o'r diwedd llwyddodd i fynd odani. Roedd gobaieth eto. Yn araf ac amharod daeth y garreg yn rhydd; cododd hi'n ofalus a'i rhoi ar ymyl y papur.

15 Yr oedd y twll yn culhau'n arw erbyn iddo balu sbel ymhellach. Tynnodd y tâp mesur o'i boced. Dwy droedfedd a hanner. lawn. Golygai hynny dros ddwy droedfedd o bridd ar y blwch, digon i'w ddiogelu am byth petai angen. Cerddodd yn ôl at y gwrych ac ymbalfalodd yn y tyfiant am y blwch. Gwrandawodd am eiliad. Dim. Cofiodd iddo glywed sŵn y môr ar brynhawn stormus o'r fan hon ers talwm, ond yr oedd yn rhy dawel o lawer heno, ac ni chyrhaeddai sŵn unrhyw don ymhellach na phen y traeth bron filltir i ffwrdd. Nid oedd awel o fath yn y byd, ac yn yr awyr yr oedd dŵwch cwmwl anferth wedi llyncu'r lleuad.

20 Daeth yn ôl i'r cae ac aeth ar ei liniau drachefn i osod y blwch ar ei ochr ar waelod y twll. Byddai'n rhaid iddo lenwi'r pridd yn ôl â'i ddwylo rhag ofn i'r rhaw dorri'r papur. Efallai y byddai cynfas wedi bod yn well. Na, erbyn meddwl, byddai cynfas yn rhy drwm ac anhwylyd i'w gario. Gollyngodd ychydig o bridd ar ben y blwch ac ymestynnodd am yr ordd. Gadawodd iddi ddisgyn yn araf ar y pridd, a dechreuodd ei chodi a'i gollwng yn gyson yn y twll i wasgu'r pridd yn iawn. Chwe modfedd o bridd eto. Gordd arno. Chwe modfedd arall. Gordd eto. Y garreg yn awr.

25 Dewisodd yr wyneb mwyaf gwastad i'r garreg a rhoi hwnnw i orwedd ar y pridd. Gwasgodd bridd o'i hamgylch ac ar ei phen â'i ddwylo cyn ailafael yn yr ordd.

30 Disgynnodd y defnyn cyntaf o law ar ei wegil. Daeth y mymryn lleiaf o ofn i'w lygaid. Aros am funud y diawl, meddyliodd. Os bwrith hi fe fydd yma ddigon o olion i'w gweld o Fynydd Ceris. Rhuthrodd am y gweddill o'r pridd, ond ymataliodd yn sydyn. Pwyll pia hi, Jôs, pwyll pia hi. Gorffennodd ei waith gyda'r un gofal a'r un trylwyredd ag a ddangosodd drwyddo draw.

**I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – Eirug Wyn**

2. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

(a) Trafodwch sut a pham mae cymeriad **Carson** yn bwysig i stori'r nofel?  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]

(b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 5.  
**Sut** mae'r awdur yn creu awyrgylch yn yr olygfa hon?  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]

(c) Ysgrifennwch **adroddiad papur newydd** yn adrodd hanes yr Indiaid Cochion yn gadael y Ceunant a symud i'r Bosque.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]

**[40]**

Y chwerthin a aeth â Kit Carson tua'r barics. Nid chwerthin cyffredin mohono, ond chwerthin aflywodraethus. Chwerthin o waelod bol. Pan safodd yn y drws, gwelodd Dicks ar ganol y llawr a blanced amdano, yn dawnsio dawns ryfel o ddiolch. Cerddodd Carson yn syth ato. Distawodd y sŵn ar amrantiad.

- 5 "Be 'di ystyr hyn?" gofynnodd i Dicks.  
 "Dathlu, syr!" atebodd hwnnw'n wawdlyd.  
 "Dathlu beth?"  
 Distawrwydd  
 "Dathlu beth?" Roedd min ar ei lais.
- 10 "Rhoi ychydig o gynhesrwydd i gyfeillion yr Is-gyrnol, syr!"  
 Yn sydyn sylweddolodd Kit Carson beth oedd wedi digwydd. Teimlai rywbeth yn corddi yn ei stumog. Roedd o eisiau chwydu. Roedd Dicks wedi rhannu blancedi'r frech wen i'r Navahos.  
 Lledodd gwên dros wyneb Dicks. Yn sydyn, tynnodd Carson ei wn, a chyda'r carn, trawodd Dicks yn greulon ar draws ei wyneb. Syrthiodd hwnnw i'r llawr. Estynnodd am ei wn, ond roedd
- 15 Carson yn gynt nag ef. Rhoddodd gic iddo ym mhwl ei stumog. Gorweddodd Dicks yno'n llonydd.  
 "Ten-shun!" Gwaeddodd Carson ei orchymyn.  
 Cleciodd sodlau a ffurfiwyd rhengoedd.  
 "Sarjant! Ewch â Chaptan Dicks i'r Ystafell Warchod a'i gloi o yno. Wedyn, ugain o ddynion a dwy wagen i 'nilyn i yn syth i wersyll yr Indiaid."
- 20 "Ond, syr . . ."  
 "Yn syth, Sarjant! Llond un wagen o goed, un arall o fwyd. A deg o'r dynion i wisgo masgiau a menig."  
 Ymhen ychydig roedd y Ffort yn ferw o brysurdeb. Aeth Kit Carson allan ar ei union i nôl Herrero a'r *ricos* eraill. Yna aethant allan i wersyll y Navahos. Gorchmynnodd i Herrero Grande drefnu i gasglu'r blancedi i gyd yn un pentwr.
- 25 "Mae pla ar y blancedi, Herrero! Dydyn nhw ddim ffit i'w defnyddio! Fe ddaw yna filwyr yma ymhen ychydig i'w llosgi," ychwanegodd.  
 "A beth wnawn ni yn y cyfamser?"  
 "Rydw i'n trefnu i chi gael ychwaneg o flancedi. Mi fydd milwyr yn dod â nhw ymhen ychydig
- 30 o amser. Fe gewch chi hefyd goed. Gwnewch danau i gynhesu."

**DIM – Dafydd Chilton**

3. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Trafodwch sut a pham mae cymeriad **Gwyn** yn bwysig i stori'r nofel?  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 7.  
**Sut** mae'r awdur yn creu awyrgylch yn yr olygfa hon?  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr. [10]
- (c) Ysgrifennwch **adroddiad papur newydd** yn adrodd hanes yr SAS yn twyllo Owain.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- [40]

Meddylïodd am y daith i gyrraedd yno, am yr oriau o lwch a jerian yng nghefn y drydedd lori, am y tawelwch anniddig di-sgwrs, am y surni poeth yn ei fol. Roedd wedi bwyta – ychydig o gyfle a gaen nhw yn ystod gweddill y dydd – ond pan mae dyn yn codi am ddau y bore mae ei stumog fel bawaid o gynrhon a hyd yn oed uwd *botá* yn anodd ei lyncu.

5 Wrth agosáu at wersyll y ZANLA fel ddechreuodd y cynrhon godi i'w lwnc. Edrychodd ar ei oriawr. Ychydig cyn wyth. Mi fydden nhw yn y gwerysll ymhen pum munud. Siawns na fyddai'r adrenalin yn cymryd drosodd cyn iddo dowlu i fyny.

10 Wyth o'r gloch. Cyrion y gwerysll. Y gwarchodwyr yn codi eu dwylo'n gyfeillgar ar y ceir arfog a'r lorïau'n gyrru heibio'u gwardfeydd pridd â'u tanau brecwast. Ychydig funudau'n ddiweddarach roedd y confoi'n gyrru i'r sgwâr gynnull. Dechreuodd torf o dduon hel o'i gwmpas o'r cytiau ar ymylon y sgwâr a rhedeg gydag ochr y cerbydau'n cyfarch ac yn codi llaw. Y tu hwnt i'r dorf roedd yna ragor ohonyn nhw'n dod, i weld a chrosawu'r newydd ddyfodiaid. Criwiau, deuoedd a thrioedd, unigolion. Cannoedd ohonyn nhw.

15 Yn sydyn daeth bloedd, a phwyntio a gweiddi. Dechreuodd y dorf gilio, ac un neu ddau i redeg yn bwrpasol at y cytiau, lle'r oedd eu gynnu. Roedd rhywun wedi sylwi bod rhai o'r wynebaw y tu ôl i lenni'r lorïau yn wynion. Ond roedd y confoi wedi cyrraedd canol y sgwâr, ac wedi dod i stop. Safai'n dawel am eiliad. Yna trodd tyredau'r cerbydau arfog i gyfeiriad y dorf a gollyngwyd ochrau cynfas y lorïau.

“Fire!”

20 Ar ôl hergwd a braw cyntaf tanio gwn otomatig, dydi dyn – ac yntau'n un chwydd o adrenalin – prin yn clywed y gic na'r glec na'r gwres na'r oglau. A phrin yn sylwi ar y trin. Na'r twrw. Dim, ond y llwytho a'r ail-lwytho. A'r canolbwyntio. A'r chwilio am darged: cefn crwn byw neu fynwes, unrhyw un efo gwn.

A thanio nes i hwnnw ddisgyn, neu ddianc o'r golwg. A gwneud yr un peth eto. Ac eto.

25 Yna rhedeg. A chwilio a thanio. A galw am fwy o getris. A llwytho a symud ymlaen.

A chwilio. A thanio.

Ac yna mae o drosodd.

Y corff yn dal i bwmpio ond dim byd ar ôl i'w saethu. Rhedeg, galw, chwilio. Edrych eto. Craffu ar y cyrff – oes yna un yn ffugio bod yn farw, ar fin tanio pistol neu daflu bom?

30 Ac yna llais y *Sergeant*, yn canmol, yn tawelu, yn rhoi gorchmynion i bylu'r min lladdgar. Yn gosod rhai i wyllo, a rhai i wneud paned. A gadael unrhyw *terrorists* – ym mherthi'r *veldt* ac yn dal i redeg – i'r awyrennau.

**Y STAFELL DDIRGEL – Marion Eames**

4. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Trafodwch sut a pham mae cymeriad **Huw Morris** yn bwysig i stori'r nofel?  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 9.  
**Sut** mae'r awdur yn creu awyrgylch yn yr olygfa hon?  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr. [10]
- (c) Ysgrifennwch **adroddiad papur newydd** yn adrodd hanes dioddefaint y Crynwyr yn y nofel hon.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- [40]



Roedd Meg yn chwerthin.

'Wel dyna beth newydd. Chawson ni 'rioed was o'r blaen oedd yn gallu darllen. Pwy ddysgodd di, Ellis?'

Llyncodd y bachgen ac aeth ei wrid yn ddyfnach.

5 'Wel dywad wrth dy fistras, Ellis Puw,' wrjiodd Huw a'i lygaid yn dawnsio.

'Fedra'i ddim.'

Prin y clywodd neb o gwmpas y bwrdd y geiriau myglyd, a syllai Ellis druan ar smotyn ar waelod ei fowlen wag.

10 'Ond tyrd, Ellis Puw,' meddai Meg yn ddigon caredig ond yn gwenu ar Huw. 'Pam na fedri di ddeud wrtha'i?'

'Dim hynny.' Cododd y bachgen ei ben ac edrych yn syth i wyneb Meg. 'Fedra'i ddim darllen, mistras.'

Ar ôl ennyd o ddistawrwydd edrychodd Meg o gwmpas mewn ffug syndod. 'Wel, 'nenor tad, be 'dy'r holl stŵr 'te?'

15 'Dyna ddigon ar blagio.' Trodd Rowland yn bwrpasol at Dafydd. 'Gest ti beth o'r ffair, Dafydd Jôs?'

Neidiodd hwnnw i'r adwy.

'Rhyw gymint, mistar, ond dim llawer. Mae'r crydcymala'n dŵad nôl fel hen ffrind gyda throad lliw'r dail, ac mae'r daith lawr i'r dre'n deud ar yr hen fegin erbyn hyn.'

20 Aeth y sgwrs ymlaen ar linellau newydd a'r gwas ifanc yn edrych yn ddiolchgar ar ei feistr. Ond fe wyddai'i burion mai dros dro roedd y llonydd oddi wrth blagio Huw Morris.

Roedd y gweision yn gadael y gegin fawr ac yn cychwyn am eu llofft eu hunain pan alwodd Rowland Ellis ar ei was newydd.

'Aros am funud, wnei di?'

25 Trodd Ellis yn ôl. Edrychodd Rowland ar Meg. 'Dy bardwn, 'nghariad i. Mi hoffwn i gael gair efo Ellis ar 'i ben 'i hun.'

Cododd Meg ei haeliau, ac roedd goslef ei llais yn datgan ei hanfodlonrwydd.

'O'r gora.'

30 'Fydda'i ddim yn hir.' Safodd wrth y drws a'i ddal yn agored i'w wraig fynd drwodd. Caeodd y drws a cherddodd yn araf at yr aelwyd. Yna trodd i edrych yn dreiddgar ar y bachgen.

'Fyddi di'n hoff o lyfrau, Ellis Puw?'

'Byddaf, syr.'

'Ond fedri di ddim darllen.'

'Ddim . . . ddim eto, syr.'

35 'Oes gen ti lyfrau?' . . .

'O, oes . . . un neu ddau.'

'Wyddost ti beth ydyn nhw?'

'O, gwn. Llyfra Morgan Llwyd – hwnnw am yr adar yn ymddiddan. Y Beibl Bach. A Llyfr y Resolution.'

40 Gwenodd Rowland. 'Does dim llawer o neb sy'n medru darllen yn deall rheiny'n iawn.'

'Na. Dydw inna ddim yn 'u deall nhw'n iawn, chwaith. Ond os bydd rhywun yn darllen i mi, rywsut mi rydw i'n gallu cofio. Ac wrth adrodd y darn drosodd a throsodd i mi fy hun, mae rhyw ystyr yn dŵad o rywle. Wn i ddim ydy'r ystyr yn iawn ai peidio. Ond mi rydw i'n dechra dysgu darllen ffor'na hefyd.'

**YN Y GWAED – Geraint Vaughan Jones**

5. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Trafodwch sut a pham mae cymeriad **Robin** yn bwysig i stori'r nofel?  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 11.  
**Sut** mae'r awdur yn creu awyrgylch yn yr olygfa hon?  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- (c) Ysgrifennwch **adroddiad papur newydd** yn adrodd hanes teulu Arllechwedd.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- [40]

'Ar fy ffordd adra o'n i, a meddwl 'swn i'n galw i weld sut ydach chi.'

'Wel ia, 'dan ni'n falch iawn o dy weld di, cofia . . .'

'Hy!' Aeth Mam draw at y sinc wrth y ffenest a phwyso'i chefn yn ei herbyn. Amlwg nad oedd ymlacio i fod.

5 'Gym'ri di banad o de?'

'Snam dŵr yn teciall!'

'Na, dwi'n iawn, Mared, diolch yn fawr iti.'

'Ne lasiad o win blodyn sgawan? Ma' 'na ddigon o hwnnw!' At ei mam yr anelai'r frawddeg olaf, yn gyfeiliant i'r edrychiad caewch-eich-blydi-ceg-ddynas-a-byddwch-yn-fwy-sifil.

10 'Wel, mi gym'ra i lasiad 'ta, un sydyn, ond wna i ddim ista chwaith.'

Gwnaeth Mam sŵn tebyg i 'Na' o dan ei gwynt, cystal ag awgrymu, 'Chest ti ddim cynnig beth bynnag!', a symudodd i hawlio'r gadair freichiau wrth y tân, fel pe bai'n rhybudd i Harri beidio â newid ei feddwl.

'Ar fy ffordd adra o'r ffair g'langaea o'n i.'

15 'Oedd honno heddiw oedd hi? Bechod na faswn i wedi cofio ne mi faswn i yno fy hun.'

Cododd yr hen wraig ei golygon a brysiodd Mared ymlaen.

'Sut oedd hi yno?'

'Dienaid iawn. Dydi Hirfryn ddim fel bydda fo. Rhyw ffatrïoedd newydd wedi tyfu yno nad oes a wnelo nhw ddim byd ag amaethyddiaeth, wel 'di. Dyna pam, 'swn i'n ddeud, ma'r ffair 'di mynd yn beth mor sâl yno. Pharith hi ddim yn hir iawn eto, gewch chi weld.'

'Rheitied peth hefyd! 'Snam angan ffeiria fel 'na bellach.' Poerodd Mam i lygad y tân a thafllu blocyn o goed i'w ganlyn. 'Isio i bawb aros adra sy. Pawb i sticio i'w le'i hun ddeuda i.'

'Wel ia . . . hm . . . Gwell i minna'i throi hi ma'n debyg. Mae wedi bod yn dda'ch gweld chi eto.' Ar Mared yr hoelïai ei lygaid.

25 Ebychiad gwyntog a diamynedd arall o gyfeiriad y lle tân.

'Wel, da boch chi 'ta.'

'Hwyl iti, Harri. Dioich iti am alw. Mi ddo i draw at. . . .'

'Mared! Dwi am iti godi matin yr aelwyd 'ma, i ysgwyd y llwch ohono fo.' Doedd dim angen iddi ychwanegu '*rwân*'; roedd yr awgrym hwnnw'n drwm yng ngoslef ei llais. Doedd hi ddim am

30 i Mared ddanfon eu hymwelydd at y giât.

'Wel, ia: Hwyl 'ta!' Ac roedd Harri wedi mynd, ac ogle Llwyn-crwn efo fo.

'Blydi hel, ddynas!' Dechreuodd Mared wthio cadair a bwrdd yn ffyrnig oddi ar y matin oedd gymaint o angen ei llau. 'Ers pryd uffar 'dach chi 'di dechra sylwi fod angan llau'r lle 'ma?'

35 Ac am unwaith, hi gafodd y gair ola, ond dim ond am fod Mam eisoes wedi cael ei buddugoliaeth ac yn fodlon ar honno. Wel, bron yn fodlon, oherwydd wrth i Mared lusgo'r matin allan i'w ysgwyd ar y buarth cyn ei frwsio ar wal y berllan, fe dybiodd glywed un ebychiad arall o gyfeiriad yr aelwyd, rhywbeth tebyg i 'Pry cachu!'

**O RAN – Mererid Hopwood**

6. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a chyfeirio at enghreifftiau penodol.** (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Trafodwch sut a pham mae cymeriad **Anti June** yn bwysig i stori'r nofel?  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 13.  
**Sut** mae'r awdur yn creu awyrgylch yn yr olygfa hon?  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- (c) Ysgrifennwch **adroddiad papur newydd** yn adrodd hanes bywyd Ifan Gwyn.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- [40]

Daeth Anti June lan i aros yn unswydd i helpu gyda'r paratoi at yr ysgol uwchradd. Roeddwn i wedi cael rhestr gan yr ysgol ac roedd yn arswydus o hir.

Roedd Myng-gu wedi dweud y byddai'n prynu *satchel* i fi. 'Sachell' oedd ar y rhestr, ond *satchel* oedd gair Myng-gu. *Satchel* ledr. Ac mewn siop fach yn Caroline Street oedd yr unig le i gael  
5 sachellau lleidr da. Caroline Street. Stryd rhyfeddod. Bob bore dydd Sul byddai llawr y stryd wag yn llawn papur tships yn adrodd stori wyllt nos Sadwrn. Roedd arna i ofn Caroline Street ac roedd culni drws y siop ac arogl dieithr lleidr ac oelcloth yn drwm ac yn dweud 'cadw draw'.

Ond mewn roedd rhaid mynd, ac ar ôl prynu'r sachell, a fyddai'n para am byth, treuliodd Anti June a fi weddill y prynhawn yn Evan Roberts yn chwilio am ofynion gwisg yr ysgol fawr.

10 Wrth i'r dydd fynd yn ei flaen, roeddwn i'n mynd yn fwy ac yn fwy anhapus. Roedd y tiwnics brethyn yn cosi. Roedd y *blazer* ddu yn edrych fel un bachgen. Roedd y crys chwaraeon yn bigog ac yn galed fel cardbord a'r sgert ddewisodd Anti June i fi'n llawer iawn, iawn rhy hir. 'Fe dyfi di, twel.'

'Ie, ond pryd?' holodd fy llais y tu mewn i fi.

15 Sane pen-glin? Neu deits duon? Teits. Byddai hynny'n arbed hen, hen broblem y sane'n llithro lawr at y pigyrnau. Nicyrs du a festis gwyn. Yna'r drafodaeth boenus gyda'r ferch yn Evan Roberts ynglŷn â'r posibilrwydd o fod angen bra neu beidio. Doeddwn i ddim ishe bra, a doeddwn i ddim ishe trafod bras gyda phobl ddieithr – ac roedd hynny'n cynnwys Anti June.

Sgidie duon. Roedd rhaid mynd i Clarks am y rhain, a'r un hen broblem yn codi fan 'na eto.

20 Cyn rhoi fy nhroed ar bren mesur metel y siop a theimlo'r tâp meddal ac ewinedd hir y ferch yn cosi fy nhraed, gallwn fod wedi ysgrifennu'r sgrïpt:

'My goodness, we do have wide feet, don't we?'

Pam 'we'? Bob tro 'we'? Oedd ganddi hi draed llydan hefyd? Roeddwn i'n amau rywsut. Doeddwn i wir ddim yn deall y bobl fawr a fynnai ddweud 'we' wrth sôn am blant. Roedd yr  
25 athrawes ffidil hefyd yn euog o hyn:

'I don't think we've been practising much this week, have we? Are we too busy?'

Fel y mochyn bach . . . wî, wî, wî.

Unwaith, roedd Dad wedi cyfeilio i rywun mewn cyngerdd lle roedd Tony ac Aloma'n canu, a Hogia'r Wyddfa. Roedd wedi dod â llofnod Aloma adre i fi. Doedd Yvonne erioed wedi clywed  
30 am Aloma, ond roedd hi bron â marw ishe ei llofnod hi pan welodd hi fe yn fy llyfr llofnodion i. Hi a Hywel Gwynfryn.

'They're really very famous, you know.'

'How famous?'

'Very.'

35 'As famous as David Cassidy?'

'More . . . Dad knows them.'

## DIWEDD Y PAPUR

# TUDALEN WAG

# TUDALEN WAG